## RHAN 2 – ERTHYGLAU'R CYFANSODDIAD

## Erthygl 9 - Y Pwyllgor Safonau a Moeseg

---

### 9.1 Pwyllgor Safonau a Moeseg

Mae'r Cygor wedi penodi Pwyllgor Safonau a Moeseg statudol a bydd yn parhau i wneud felly.

### 9.2 Cynnwys

Cydbwysedd Gwleidyddol

Nid oes rhaid i'r Pwyllgor Safonau a Moeseg gydymffurfio â'r rheolau cydbwysedd gwleidyddol yn adran 15 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 ac mae'r Cyngor wedi penderfynu y caiff y tri Chynghorydd a etholwyd yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor eu henwebu i sefyll ar y Pwyllgor.

**(a) Aelodaeth**

Bydd y Pwyllgor Safonau a Moeseg yn cynnwys naw aelod. Bydd ei aelodaeth yn cynnwys:

(i) Pum aelod 'annibynnol', nad ydynt yn Gynghorydd neu gyflogai neu ŵr/gwraig cynghorydd neu gyflogai'r Awdurdod neu unrhyw awdurdod perthnasol arall fel y diffinni gan y Ddeddf, wedi'u penodi yn unol â'r weithdrefn a nodir yn Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001;

(ii) Tri Chynghorydd (na fydd yn cynnwys yr Arweinydd ac na fydd yn cynnwys mwy nag un aelod o'r Cabinet neu Gynorthwyydd i'r Cabinet) o'r Awdurdod; a

(iii) Un aelod o Gyngor Cymuned sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf yn ardal y Cyngor ('Aelod o'r Pwyllgor Cymuned'), ar yr amod y gall y Cyngor hefyd benodi Aelod Pwyllgor Cymunedol Dirprwyol o Gyngor Cymuned wahanol o fewn ardal y Cyngor i eistedd ar unrhyw Banel Gwrandawiadau Is-bwyllgor y gellir ei gynnull i bennu cwyn am gynghorydd cymuned (wedi atgyfeiriad gan yr Ombwdsmon) mewn unrhyw achos lle y gall yr Aelod o'r Pwyllgor Cymunedol fethu â gweithredu oherwydd gwrthdaro buddiannau.

**(b) Cyfnod yn y swydd**

(i) Caiff aelodau annibynnol eu penodi am gyfnod nad yw'n llai na phedair blynedd ac nad yw'n fwy na chwe blynedd. Bydd y Cyngor yn penderfynu ar y cyfnod hwn pan gânt eu penodi. Gallant gael eu hail-benodi am un term olynol pellach o hyd at pedair blynedd bellach yn unig.

(ii) Caiff aelodau o Gyngor Caerdydd sy'n aelodau o'r Pwyllgor Safonau a Moeseg gael eu penodi tan ddyddiad yr etholiad llywodraeth leol gyffredin

nesaf ar ôl iddynt gael eu penodi. Byddant yn stopio bod yn aelod o'r Pwyllgor Safonau a Moeseg os byddant yn stopio bod yn aelod o Gyngor Caerdydd. Gallant gael eu hail-benodi am un term olynol pellach yn unig.

(iii) Bydd yr Aelod o'r Pwyllgor Cymunedol (ac Aelod o'r Pwyllgor Cymunedol Dirprwyol, os caiff ei benodi) yn cael ei benodi am gyfnod o ddim mwy na'r cyfnod tan yr etholiadau cyffredin nesaf ar gyfer y cyngor cymuned, yn dilyn ei benodiad. Bydd yn stopio bod yn aelod o'r Pwyllgor Safonau a Moeseg os bydd yn stopio bod yn aelod o gyngor cymuned yn ardal y Cyngor. Gall gael eu hail-benodi am un term olynol pellach yn unig.

**(c) Cworwm**

Bydd cyfarfod y Pwyllgor Safonau a Moeseg yn gworwm dim ond pan fo:

(i) o leiaf tri aelod yn bresennol; a

(ii) o leiaf hanner yr aelodau sy'n bresennol yn aelodau annibynnol.

**(d) Pleidleisio**

Bydd hawl gan yr aelodau annibynnol ac aelodau pwyllgorau cymunedol hawl i bleidleisio mewn cyfarfodydd.

**(e) Aelodau Pwyllgorau Cymunedol**

Ni fydd aelod pwyllgor cymunedol yn cymryd rhan yng ngweithrediadau'r Pwyllgor Safonau a Moeseg neu unrhyw o'i is-bwyllgorau pan fo unrhyw fater sy'n ymwneud ag aelod o'i Gyngor Cymunedol yn cael ei ystyried.

**(f) Cadeirio'r Pwyllgor**

(i) Aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau a Moeseg yn unig sy'n gallu bod yn Gadeirydd neu'n Is-Gadeirydd

(ii) Caiff y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd eu hethol gan aelodau o'r Pwyllgor Safonau a Moeseg ar gyfer p'un o'r cyfnodau canlynol sy'n fyrraf o (dim llai na 4 blynedd a dim mwy na 5 blynedd, neu (b) nes y bydd cyfnod y person hwnnw fel aelod annibynnol o'r Pwyllgor yn dod i ben. Gall y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd eu hail-benodi.

9.3 **Is-bwyllgor Cynghorau Cymunedol**

Caif y Pwyllgor Safonau a Moeseg benodi is-bwyllgor i arfer ei swydoogaethau mewwn perthynas â'r cynghorau cymuned sydd wedi'u lleoli yn ardal weinyddol Caerdydd ac aelodau'r Cynghorau Cymuned hynny. Bydd yr is-bwyllgor yn cynnwys o leiaf dau aelod annibynnol ac un aelod pwyllgor cymunedol, oni bai bod y mater sydd gerbron yr is-bwyllgor yn berthnasol i Gyngor yr aelod pwyllgor cymunedol ne aelod o'r cyngor hwnnw. Yn yr achos

hwn, bydd aelod arall o'r Pwyllgor Safonau a Moeseg yn cymryd lle'r aeloda pwyllgor cymunedol.

9.4 **Rôl a Swyddogaeth**

Bydd gan y Pwyllgor Safnau a Moeseg yn nodi'r a'r swyddogaethau yn ei gylch gorchwyl cymeradwy yn Atodiad 2 of Ran 3 y Cyfansoddiad hwn.

9.5 **Adroddiad Blynyddol**

Cyn gynted â phosibl ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol, bydd y Pwyllgor Safonau a Moeseg yn cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyngor, yn unol â gofynion adran 63 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.